Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-854
Ein cyf/Our ref VG/03897/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

Ir Rhagfyr 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Tachwedd ynghylch Deiseb P-05-854 Gwneud hyfforddiant Anabledd Dysgu yn orfodol ar gyfer staff ysbytai, gan Sefydliad Paul Ridd.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r teulu i ddatblygu canllawiau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu sydd angen mynediad at ofal acíwt yn yr ysbyty. Mae Sefydliad Paul Ridd hefyd yn rhan o weithgor i wella iechyd pobl ag anableddau dysgu, ac yn mynd i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu fframwaith addysgol ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol.

Nod y rhaglen drawslywodraethol ddwy flynedd, Rhaglen Gwella Bywydau yw gwella cyfleoedd bywyd, iechyd a llesiant pobl ag anableddau dysgu, ac mae'n rhoi sylw i gyflawni anghenion pobl ag anableddau dysgu pan fyddant yn yr ysbyty. Yn goruchwylio'r gwaith hwn mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog newydd, dan gyd-gadeiryddiaeth y cyn Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Mrs Gwenda Thomas, ac aelod o Rhoi Pobl yn Gyntaf Cymru.

Disgwylir i'r holl wasanaethau iechyd sy'n cael eu darparu yng Nghymru fod o'r safon uchaf a chydymffurfio â Safonau Gofal Iechyd i Gymru, safonau iechyd proffesiynol a chanllawiau y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Mae canllawiau penodol i wella gofal a thriniaeth i bobl ag anabledd dysgu yn yr ysbyty wedi bod ar gael ers 2014.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio y bydd hyn o gymorth ichi.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services